

1 PARC GWLEDIG PEN-BRE



PORTH TYWYN

Sgio Pen-bre
01554 834443
SA16 0EJ



2 HARBWR PORTH TYWYN

PORTH TYWYN



Heneb



4 GWARCHODFA NATUR Y PWLL LLUDW



Heol Pwll

5 PAFILIWN Y PWLL



Heol Pwll, Pwll

1

P 5



PWLL

P 6

Cerflyn pridd
"Cerdded Gyda'r Môr"


Goleufa Trafalgar

Harbwr Porth Tywyn

Llanelli

6

PARC DWR Y SANDY



Heol Sandy

PARC ARFORDIROL Y MILENIWM

Mae Llwybr Arfordirol y Mileniwm yn llwybr diogel a di-draffig sy'n ymestyn am 22 cilomedr ar hyd ymylon Bae Caerfyrddin, sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. Dyma llwybr delfrydol i'r teulu cyfan, sy'n mynd heibio i sawl traeth tywodlyd, llynnoedd hardd, caffis gwych a gwarchodfeydd natur.

P

LLANELLI

TROSTRE

9

P 10

10

Gat y Bynea
SA14 9TD

7

PARC ARFORDIROL Y MILENIWM A'R GANOLFAN DDARGANFOD



Doc Y Gogledd

18

MACHYNYS & BWLCH Y GWYNT

Rhodfa Nicklaus
SA15 2DG

8

Penrhyn Gwyr

CANOLFAN GWLYPTIR

LLANELL

9

GAT Y BYNEA

10





PARC ARFORDIROL Y MILENIWM



Gan ymestyn am oddeutu 13 milltir ar ymyl y lan rhwng Parc Gwledig Pen-bre a'r Bynea, mae'r llwybr beicio di-draffig hwn sy'n esgyn ac yn disgyn yn raddol (ac sy'n rhan o Lwybr 4 ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol) yn ffordd odidog o weld bywyd gwyllt amrywiol, tirweddau trawiadol ac etifeddiaeth ddiwydiannol arfordir Sir Gâr yng nghyffiniau Llanelli. A chan fod nifer helaeth o lecynnau i aros i gael tamaid a llymaid, digonedd o lefydd chwarae i'r plant, a llwybrau hawdd a hwylus, mae Parc Arfordirol y Mileniwm yn lle perffaith i deuluoedd fynd am ddiwrnod allan.

1 PARC GWLEDIG PEN-BRE

I'r de o'r goedwig dwyni sydd i'r gorllewin o hen Harbwr Pen-bre mae morfa heli a fflatiau tywod hyfryd, a cheir golygfeydd ysblennydd i'r de draw tuag at Benrhyn Gŵyr. Mae trac llydan – sy'n wastad ond nad yw'n esmwyth yr holl ffordd – yn ymlwybro i'r parc gwledig. lle mae ystod o gyfleusterau a gweithgareddau addas i'r teulu, yn cynnwys llwybrau natur, maes chwarae antur a chaffis, ac yng Nghanolfan Sgïo Pen-bre mae llethr sgïo sych, beiciau i'w llogi, tobogan Cobra a maes saethyddiaeth. Gallwch hefyd fwynhau dros 8 milltir o dywod euraidd ar draeth Cefn Sidan..

www.parcgwledigpenbre.cymru

2 HARBWR PORTH TYWYN

Agorodd yr hen harbwr diwydiannol hwn a'r doc yn 1832 i allforio glo, ond erbyn hyn mae'n farina hardd â rhes o fythynnod lliwgar gerllaw. Bellach mae un o'r bythynnod hyn yn gartref i Harbour Light Tearoom & B&B (01554 830071), sy'n cynnig amrywiaeth o frechdanau, prydau twym a chacennau cartref blasus – mae'r bara brith a'r gacen fanana yn ddelfrydol i gael egni i feicio. Ceir hefyd stondin llyfrau ail-law, crefftau a gwaith ar werth gan artistiaid lleol, ynghyd â fordydd yn yr ardd flaen i fwyta mas yn yr awyr agored pan fo'r tywydd yn ddigon braf. Beth am aros am ennud yng ngorsaf yr RNLI i'r dwyrain o'r harbwr i bryn rhywbeth a chael gwybod am waith hollbwysig criw'r bad achub lleol.

3 PORTH TYWYN

Yn y dref fach ddeniadol hon i'r gogledd o'r harbwr cadwch lygad am y gofeb i Amelia Earhart, sef y

fenyw gyntaf i hedfan dros yr Iwerydd yn 1928 – glaniodd ger y man hwn ar 18 Mehefin. Stopiwch yn Whitfords (www.whitfords.wales), sef caffi-bar croesawgar lle mae ystafelloedd steilus, prydau arbennig twym ac oer yn ddyddiol sy'n cynnwys byrbrydau a phrif brydau, amrywiaeth o sundaes hufen iâ i gyffroi'r plant, ac ystod anhygoel o gacennau cartref - mae'r gacen gaws nutella mor dda byddwch am fwy a mwy ohoni!

4 GWARCHODFA NATUR Y PWLL LLUDW

I'r dwyrain o Borth Tywyn, fe â'r llwybr drwy bytiau o goetir cymunedol, lle mae rhwydwaith o lwybrau cerdded a llwybrau beic yn eich tywys rhwng y coed. Gwyrwch oddi ar y llwybr am ychydig i weld y cerflun mawr ar y pentir uwchlaw traeth Tywyn Bach. Mae'r golygfeydd i gyfeiriad Llanelli a draw dros aber afon Llchwyr i Benrhyn Gŵyr yn ddigon o ryfeddod. Ymdroella'r llwybr o gwmpas darn mewndirol y warchodfa natur, heibio i'r hen safleoedd diwydiannol lle mae cudyllod coch, corhedyddion y waun, gloynnod byw a llygod y gwair yn ffynnu bellach yn y glaswelltir lled-naturiol.

5 PAFILIWN Y PWLL

Hanner ffordd rhwng Porth Tywyn a Llanelli mae Pafiliwn y Pwll yn fan cyfleus i gael rhywbeth i'w fwyta – gall oedolion loddesta ar lond plât o frecwest sy'n cynnwys breccwast Cymreig llawn (cocos, bara lawr, madarch, tomato, bacwn, pwdin gwaed, wyau), ac mae digon o sundaes hufen iâ ar gyfer plant, ynghyd â lle chwarae lliwgar. Cofiwch gadw llygad am y plac yn ymyl y llwybr sy'n dynodi'r man lle glaniodd Amelia Earhart ar ôl hedfan dros yr Iwerydd am y tro cyntaf yn 1928.

6 PARC DWR Y SANDY

Mae llyn hirsgwâr mawr yng nghanol y parc deniadol hwn, ac yn wreiddiol roedd yn gysylltiedig â gwaith dur Llanelli (Duport yn ddiweddarach) a gaeodd yn 1981. Erbyn heddiw mae'r llyn yn gartref i hwyaid, elyrch a rhydwyrr eraill, ac yn yr haf mae tegeirianau a blodau gwylltion eraill i'w gweld wrth bedlo o gwmpas y parc gwyrddlas.

7 PARC ARFORDIROL Y MILENIWM A'R GANOLFAN DDARGANFOD

Cafodd y parc hwn, sydd wedi'i dirwedu mewn modd dychmygus dros ben, ei agor gan y Frenhines yn 2002 ac mae'n cynnwys llwybr eang, troellog sy'n mynd rhwng ardaloedd picnic a meinciau, ac mae mynediad oddi yno i draeth euraidd lle mae barcud-syrffwyr yn mentro i'r tonnau. Yng nghanol y parc, ger meysydd parcio Doc y Gogledd, mae Canolfan Ddarganfod drawiadol Llanelli, sy'n fan gwybodaeth i dwristiaid ac mae toiledau yno. I ffynyr grisiau, mae arlwy wych Caffi Flanagan yn cynnwys coffis, cacennau, a phrydau twym ac oer, a chan fod y ffenestri'n ymestyn o'r llawr i'r nenfwd mae panorama eang o aber afon Llchwyr – man ysbrydoledig i feicwyr hen ac ifanc gael hoe hanner ffordd.

8 MACHYNYS A BWLCH GWYNT

Mae'r pentir i'r de o Lanelli yn llecyn gwyrdd heddychlon bellach – cwrs golff a ddyluniwyd gan Jack Nicklaus. Ond hanner canrif yn ôl, roedd yno gymunedau diwydiannol llewyrchus, sef 'pentref coll' Bwlch y Gwynt yn bennaf, a oedd â doc, ysgol, a gwaith haearn, dur a thunplat. Wrth edrych yn ôl

ymhellach byth, dywed traddodiad fod Machynys yn gartref i fynachdy hynafol, ac mae'n bosib mai dyna yw tarddiad yr enw, ac yna fferm. Gallwch ddarganfod mwy drwy ddarllen y panelau diddorol a godwyd gan Dreftadaeth Gymunedol Llanelli.

www.llanellich.org.uk

9 CANOLFAN GWLYPTIR LLANELLI

Mae'r llwybr yn gwyro tua'r tir i gyrion pyllau'r llecyn hwn sy'n baradwys i adar. Agora'r ffenestri yno i ddatgelu gwlyptiroedd prydfeth - cadwch lygad am ystod o rywogaethau fel coch y berllan â'i frest pinc, yr hwyaden llydanbig, a'r hwyaden bengoch, ac ymhlith yr ymwelwyr tymhorol mae adar y bwn wrth iddynt aeafu a degau o filoedd o rydwyr eraill, yn ogystal â chrehyrod bach sy'n nythu. Hefyd, mae yna gaffi i'ch temptio. Cegin Glas y Dorlan (mynediad am ddim). Mae yno le chwarae, haid lliwgar o fflamingos Caribiaidd ac amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys saffaris canwio a llwybrau beicio yn yr haf – mae digon i gadw'r rhai bach yn hapus.

www.wwt.org.uk/wetland-centres/llanelli/

10 YGAT - Y BYNEA

Ym mhen dwyreiniol y llwybr mae llefydd parcio a mynediad at yr orsaf drên yn y Bynea, yn ogystal â safle gwersylla mawr â chyfleusterau llawn y 'Gateway'. Mae'r safle hwn, sy'n wynebu fflatiau tywod a fflatiau llaid aber afon Llchwyr, yn lleoliad pwysig yn rhyngwladol i adar hirgoes ac adar eraill. Hefyd mae gan y lle far a bwyty poblogaidd, man chwarae meddal a phwll, a golygfeydd godidog draw i Benrhyn Gŵyr.